

ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL	
Pwyllgor:	Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio
Dyddiad:	9 Hydref 2017
Pwnc:	Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn
Pwrpas yr Adroddiad:	I ddiweddarau'r Pwyllgor ar y gwaith sydd wedi'i wneud gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ers ei sefydlu ar y 1af o Ebrill yn unol a gofynnion y Ddeddf Llesiant Cenedlaethu'r Dyfodol (Cymru)
Cadeirydd Sgriwtini:	Cynghorydd Gwilym O Jones
Aelod(au) Portfolio:	Cynghorydd Llinos Medi
Pennaeth Gwasanaeth:	Dim yn berthnasol
Awdur yr Adroddiad:	Llio Johnson, Rheolwr Rhaglen Bwrdd
Rhif Ffôn:	Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn
E-bost:	01248 752033 lliojohnson@ynysmon.gov.uk
Aelodau lleol:	Holl Aelodau

1 – Argymhelliad(au)

1. Bod yr aelodau yn nodi'r cynnydd sydd wedi'i wneud gan y BGC o ran paratoi a chyhoeddi'r Asesiad o Lesiant Lleol a'r gwaith o baratoi'r Cynllun Llesiant.
2. Bod yr aelodau yn cytuno i dderbyn diweddariadau pellach gan y BGC tra bod y Cynllun Llesiant yn cael ei ddatblygu.

2 – Cysylltiad i Cynllun Corfforaethol / Blaenoriaethau Corfforaethol Arall

Mae'n gyfrifoldeb statudol i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus gyhoeddi Cynllun Lles erbyn Mai 2018 gan gymryd i ystyriaeth nifer o wahanol ffynonellau data / gwybodaeth.

3 – Egwyddorion Arweiniol ar gyfer Sgriwtini

Egwyddorion fel canllaw i Aelodau wrth graffu ar y mater hwn:

- 3.1 Effaith mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar gwsmer/ dinesydd]**
- 3.2 Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**
- 3.3 Edrych ar y system ac unrhyw risgiau **[ffocws ar y system a risg]**
- 3.4 Craffu'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu warantu ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**
- 3.5 Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt gofynnion Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol **[ffocws ar lesiant]**

4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol

- Oes tystiolaeth fod y sefydliadau sydd yn aelodau o'r BGC wedi cyd-weithio i gynhyrchu Asesiad o Lesiant Lleol ar gyfer ardal Ynys Môn?
- Unrhyw gwestiynau ynglŷn y ffordd ymlaen sydd yn cael eu hamlinellu yn yr adroddiad?

5 – Cefndir / Cyd-destun

Sefydlwyd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ynys Môn yn unol â gofynion y Ddeddf Lleisant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Cytunwyd i gyd-weithio â Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd er mwyn gallu sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl tuag at gyflawni ar ran trigolion Ynys Môn a Gwynedd.

Mae aelodaeth y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn (BGC) yn ymateb i'r gofynion - mae aelodau statudol, rhai sydd yn rhaid eu gwahodd a phartneriaid eraill. Yn 2017 Cadeirydd y BGC yw Ffion Johnstone, Cyfarwyddwr Ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Mae'r BGC yn cyfarfod yn chwarterol gyda gweithdai ychwanegol wedi'u trefnu yn ystod 2017 er mwyn llunio'r Asesiad o Lesiant Lleol.

Gweithred y BGC rhwng Ebrill 2016 a Mai 2017 oedd cynhyrchu Asesiad o Lesiant Lleol. Bydd y gwaith yma yn arwain at lunio'r Cynllun Llesiant a fydd yn cael ei gyhoeddi ym mis Mai 2018.

Trefnwyd Is-Grwp Llesiant i arwain y gwaith o gynhyrchu'r Asesiad ac fe fu i bob sefydliad sydd yn aelod o'r BGC sicrhau bod swyddogion o'u sefydliad yn mynchu'r Is-Grwp. Bu cydweithio ar gasglu'r data angenrheidiol ar gyfer yr Asesiad ac hefyd bu i nifer o'r swyddogion gefnogi y gwaith o ymgysylltu ac ymgynghori ar gyfer yr asesiad.

Cynhaliwyd ymgynghoriad cychwynnol yn ystod yr hydref 2016. Trefnwyd nifer o weithgareddau ar y cyd:

- Ymweld a'r 14 ardal sydd wedi eu nodi yn yr asesiad Llesiant I drafod y llyfrynnau ardal
- Ymweld ag ysgolion uwchradd
- Fforymau cynghorau Tref a Chymuned
- Fforymau eraill megis 'Age Well'
- Derbyniwyd hefyd oddeutu 800 o holiaduron gan y cyhoedd

Yn dilyn hyn bu gweithdy o'r BGC er mwyn dadansoddi a dehongli y prif negeseuon o fewn yr asesiad.

Cyflwynwyd draft o'r Asesiad o Lesiant Lleol i'r Pwyllgor Sgrwtini Partneriaeth ac Adfywio ym mis Ionawr 2017 ac yna i'r Pwyllgor Gwaith ym mis Mawrth 2017.

Cyhoeddwyd yr Asesiad o Leisiant Lleol ar gyfer ardal awdurdod lleol Ynys Môn ym mis Mai 2017.

Bellach mae'r gwaith o lunio'r Cynllun Llesiant ar waith. Trefnwyd 18 o weithdai ym mis Awst gyda swyddogion o nifer o sefydliadau ac asiantaethau yn eu mynychu. Fe fydd y BGC yn trafod canfyddiadau'r gweithdai ddechrau Hydref ac yn llunio Amcanion Llesiant drafft ar gyfer yr ardal.

Bydd ymgynghoraid statudol (12 wythnos) ar gyfer y Cynllun Llesiant ac mae'r Pwyllgor Sgrwtini Partneriaeth ac Adfywio yn un o'r ymgynhorai statudol. Fe fyddwn yn cyflwyno'r Cynllun Llesiant Drafft i'r Pwyllgor a r y 14eg o Dachwedd 2017.

6 – Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb

Dim yn berthnasol

7 – Goblygiadau Ariannol

Dim yn berthnasol

8 – Atodiadau

Dim

9 - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):

Gellir gweld yr Asesiad o Lesiant Lleol a'r llyfrynnau ardal ar y wefan:

www.llesiantgwyneddmon.org.